
# **Prif Swyddog**
# Adnoddau Dynol

Cyngor Caerdydd
**Pecyn Recriwtio**



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English



# Llythyr gan yr Arweinydd



Annwyl Ymgeisydd

Diolch am eich diddordeb yn y rôl gyffrous a heriol hon.

Mae Caerdydd wedi cael ei hailddyfeisio yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf fel prifddinas a gydnabyddir yn rhyngwladol. Gwelir y llwyddiant hwn yn nhwf cyflym poblogaeth y ddinas, gyda Chaerdydd, fel prifddinas Cymru, bellach yn un o'r dinasoedd mwyaf medrus sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain.

Mae gweinyddiaeth y Cyngor wedi nodi ei hymrwymiadau polisi yn 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach', sy'n nodi rhaglen weithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, rheoli twf mewn ffordd gynaliadwy a diwygio gwasanaethau cyhoeddus, tra'n sicrhau bod pob preswylydd yn teimlo manteision llwyddiant y ddinas.

Ond, fel awdurdodau lleol eraill ar draws y DU, mae Caerdydd yn wynebu rhai o'r pwysau ariannol a gwasanaeth mwyaf sylweddol mewn cenhedlaeth. Mae'r galw am wasanaethau'n parhau i gynyddu, ac nid yw'r gost o'u darparu erioed wedi bod yn uwch. Ar yr un pryd, nid yw'r arian sydd ar gael i ni yn cadw i fyny â'r pwysau hyn.

Fel sefydliad, mae angen i ni ailfeddwl a, lle bo angen, ailgynllunio'r ffordd y mae llawer o'n gwasanaethau yn cael eu darparu, gan ganolbwyntio fwyfwy ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ataliol a chydlynol, ar gefnogi twf teg a gwyrdd, ac ar ddefnyddio technoleg i wella mynediad ar gyfer dinasyddion a chynorthwyo ein staff i ddarparu gwasanaethau rhagorol.

Mae'n rhaid i ni symud oddi wrth ddelio â phroblemau'n unigol a dechrau integreiddio timau rheng flaen a rymusir i fynd i'r afael â materion dydd i ddydd y gwyddom fod angen eu datrys. Yn yr un modd, ni all cyfarwyddiaethau unigol weithredu'n unigol mwyach; rhaid i'r Cyngor weithredu fel un tîm di-dor i sicrhau gwelliant ar draws y ddinas. Yn fwy cyffredinol, rhaid i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill i gyflawni atebion parhaus i broblemau cymhleth ac anghydraddoldeb.

Mae prifddinas lwyddiannus yn ased cenedlaethol yn ogystal ag ased rhanbarthol. Rhaid i ni fod yn ddinas agored, yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod llwyddiant Caerdydd yn cael ei rannu â phobl leol, partneriaid rhanbarthol a'r genedl gyfan. Rhaid i Gaerdydd fod yn brifddinas sy'n gweithio dros Gymru.

Fe'ch gwahoddwn chi i fynd i'r afael â'r her gyda ni.

Y Cynghorydd Huw Thomas
Arweinydd y Cyngor

# Llythyr gan y Prif Weithredwr



Annwyl Ymgeisydd

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â'n Huwch Dîm Rheoli - gan gydweithio mewn sefydliad cyhoeddus arweiniol sydd â 13,000 o gyflogeion a chyllideb net o dros £900 miliwn sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i dros 380,000 o breswylwyr.

Cyngor Caerdydd yw awdurdod lleol mwyaf Cymru. Fel darparwr allweddol gwasanaethau cyhoeddus lleol, rydym yn chwilio am Brif Swyddog Adnoddau Dynol creadigol, profiadol ac effeithiol gyda'r gallu i archwilio ffyrdd newydd o weithio ar draws ffiniau a sectorau, ac i'n helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'r dinasyddion a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Nod agenda uchelgeisiol y Cyngor yw gosod Caerdydd ar flaen y gad o ran llywodraeth leol, yn seiliedig ar ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel a rhaglen datblygu dinas sy'n parhau i gefnogi cyflawniadau Prifddinas Ewropeaidd lwyddiannus. Mae cael y person cywir i arwain ein tîm AD ymroddedig yn hwylusydd pwysig – cam pwysig i'n helpu i gyflawni agenda Cryfach, Tecach, Gwyrddach y Cyngor.

Fel aelod o Uwch Dîm Rheoli profiadol, talentog ac ymroddedig, mae'r Prif Swyddog Adnoddau Dynol yn arwain ar ystod eang o fentrau a pholisïau corfforaethol a thrawsbynciol – gan chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn esblygu i fodloni gofynion y presennol a'r dyfodol.  Mae'n cynnwys gweithredu mewn amgylchedd cymhleth a deinamig gyda blaenoriaethau sy'n cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth; partneriaeth gymdeithasol gyda phartneriaid undebau llafur; recriwtio a chadw staff; datblygu fframweithiau polisi cadarn; hyrwyddo arfer da; cyswllt staff effeithiol; a datblygiad proffesiynol helaeth.

Mae'r swydd yn un heriol.  Ond mae'n rhoi cyfle gwych i weithiwr proffesiynol AD uwch a phrofiadol gymryd y cam nesaf yn ei yrfa, gan weithio wrth wraidd sefydliad cyhoeddus blaengar a deinamig ym Mhrifddinas Cymru.

I drefnu sgwrs anffurfiol gyda'n hymgynghorydd cynghori yn Faerfield, Dawn Faulkner, ffoniwch 0121 312 3755.

Yn gywir



Paul Orders
Prif Weithredwr







**Prif Swyddog Adnoddau Dynol**

**Cyflog £97, 861**

**Ynglŷn â'r Gwasanaeth**

Mae Caerdydd yn ddinas fywiog ac amrywiol, ac yn un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y Deyrnas Unedig. Fel cyflogwr mawr i 13,000 o weithwyr sy'n gweithio ym mhob rhan o wasanaethau'r Cyngor ac mewn ysgolion, mae'r Cyngor yn dibynnu ar swyddogaeth Adnoddau Dynol effeithlon ac effeithiol fel galluogwr allweddol ar gyfer cyflwyno agweddau perthnasol ar ymrwymiadau Cryfach, Tecach, Gwyrddach y weinyddiaeth a Chynllun Corfforaethol y Cyngor.

**Ynglŷn â’r Swydd**

Gan adrodd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, byddwch yn gyfrifol am ddarparu arbenigedd adnoddau dynol o safon ar draws y Cyngor. Bydd eich ffocws strategol a'ch ymagwedd sy'n canolbwyntio ar bobl yn sicrhau bod y Cyngor, fel cyflogwr mawr yn y ddinas, mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol.

Fel aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor byddwch yn chwarae rhan strategol annatod wrth arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau adnoddau dynol hynod effeithiol, ail-lunio'r Cyngor a sbarduno perfformiad er mwyn sicrhau ffocws parhaus ar welliant.

**Yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gennych chi**

Byddwch yn gallu perfformio ar eich gorau yn gweithio ar lefel strategol mewn sefydliad mawr. Bydd eich dealltwriaeth fanwl o wasanaethau cyhoeddus yn eich galluogi i newid gwasanaethau, llywio a dylanwadu ar y ffordd y mae gwasanaethau adnoddau dynol yn cael eu cynnig. Bydd gennych hefyd y gallu i gyfrannu at welliant corfforaethol y tu allan i'ch cylch gwaith uniongyrchol.

Byddwch yn huawdl, yn gredadwy ac yn gallu ennill parch drwy roi cyngor arbenigol clir. Bydd gennych y gallu i feddwl yn strategol a delio â materion cymhleth yn rhwydd.

Byddwch yn gyfathrebwr hyderus, byddwch yn sefydlu perthynas broffesiynol effeithiol yn gyflym ar draws y Cyngor, gan gynnwys gyda phartneriaid undebau llafur, yn ogystal ag ar draws y rhwydwaith Adnoddau Dynol ehangach yng Nghymru a thu hwnt.

Bydd gennych hanes profedig o reoli adnoddau dynol.

Mae’r swydd hon wedi’i chyfyngu’n wleidyddol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009).

**Dyddiad Cau: 5 Mehefin 2025**

**Rhagor o Wybodaeth**
I drefnu sgwrs anffurfiol gyda'n hymgynghorydd cynghori yn Faerfield, Dawn Faulkner, ffoniwch 0121 312 3755.







**Y Broses Recriwtio a Dethol**

Y cam cyntaf i ymgeiswyr ar y rhestr hir fydd Canolfan Asesu, a gynhelir ym mis Mehefin 2025. Yr ail gam i ymgeiswyr ar y rhestr fer fydd cyfweliad gyda'r Pwyllgor Penodiadau ym mis Gorffennaf 2025.

# Proffil Rôl



| | |
|---|---|
| **Teitl Rôl** | Prif Swyddog Adnoddau Dynol |
| **Gradd** | Cyflog Prif Swyddog |
| **Prif Ddiben y Rôl** | Cyflwyno dadansoddiad i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ynghylch yr opsiynau a'r dulliau gorau o gyflawni agweddau perthnasol ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor.<br><br>Bod â chyfrifoldeb arweiniol dros wasanaethau AD cydymffurfiol, rheoli a chydlynu pobl, ariannol a'r holl adnoddau sydd ar gael i sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn effeithiol, rhaglenni newid a gwasanaeth dyddiol o ansawdd uchel i gwsmeriaid. |
| **Prif Gyfrifoldebau** | • Troi gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor yn gyfres o strategaethau cyson ac effeithiol ar gyfer gwasanaethau AD<br>• Cefnogi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn y gwaith parhaus o ddatblygu partneriaethau a pherthnasoedd strategol â sail gadarn iddynt a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau AD Caerdydd yn dangos esiampl dda<br>• Rhoi cyngor cywir i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ar sut a lle dylid sicrhau effeithlonrwydd, newid gwasanaethau neu fuddsoddi ymhellach yn y gwasanaethau AD er mwyn gwasanaethu pobl Caerdydd yn y ffordd orau<br>• Arwain tîm rheoli; creu, gweithredu, monitro ac adolygu perfformiad gwasanaethau AD a sicrhau bod deilliannau sylweddol well yn cael eu cyflawni ar gyfer cwsmeriaid<br>• Dilyn y cyd-destun economaidd allanol a chynghori'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ar sut i lywio gwasanaethau AD mewn perthynas â newidiadau, heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg<br>• Sicrhau bod rheolwyr yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau cyllidebol gan eu harwain a'u cefnogi i wneud penderfyniadau anodd mewn cyd-destun o lai o adnoddau a newidiadau yn y galw am wasanaethau<br>• Creu systemau rheoli perfformiad effeithiol ar gyfer unigolion a thimau a'u rhoi ar waith er mwyn monitro, asesu a gwella safonau a chyflawni dangosyddion perfformiad allweddol<br>• Arwain, ysgogi a datblygu tîm o reolwyr – gan sicrhau'r lefelau uchaf o gyfranogiad a gweithrediad o ran blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol y Cyngor<br>• Arwain rheolwyr yn y gwaith o lunio cynlluniau busnes cadarn ac ystyrlon – gan ddarparu eglurder o ran dibenion, pwyslais a chanlyniadau allweddol ar gyfer y gwasanaethau AD<br>• Sicrhau bod prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ar waith i rannu syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio ac i gynnig gwybodaeth ynghylch cynnydd a chyflawniadau |

| | |
|---|---|
| **Meysydd Cyfrifoldeb** | • Adnoddau Dynol |

| | |
|---|---|
| **Dulliau Mesur Llwyddiant** | • Cyflawni blaenoriaethau corfforaethol y gwasanaeth AD<br>• Rheoli adnoddau'n effeithiol – gwella perfformiad AD, a sicrhau'r arbedion ariannol gofynnol ar yr un pryd |

# Proffil Rôl



Gweithio Dros Gaerdydd, Gweithio Gyda'n Gilydd



**Wrth baratoi eich cais ysgrifenedig, bydd angen i chi gynnig tystiolaeth ar gyfer y cymwyseddau a nodir â seren. Dyma'r cymwyseddau hanfodol ar gyfer eich cais ysgrifenedig. Wrth ymateb i bob un o'r meysydd cymhwysedd hanfodol, rhaid i chi gynnig enghreifftiau sy'n dangos eich bod wedi cyflawni canlyniadau o faint, cwmpas a chymhlethdod tebyg i'r heriau a wynebir gan Gyngor Caerdydd. Caiff y rhain a'r cymwyseddau eraill eu hasesu yn ystod y camau sy'n weddill o'r broses recriwtio.**

| **Cymwyseddau Ymddygiadol** | **Cam y Cais** | **Lefel(au) Cymhwysedd** |
|---|---|---|
| Rhoi Ein Cwsmeriaid yn Gyntaf | * | 5 |
| Cyflawni Pethau | * | 4 |
| Cymryd Cyfrifoldeb Personol | * | 4 |
| Ceisio Deall Eraill | | 4 |
| Datblygu Potensial | | 4 |
| Arwain Newid | * | 4 |
| Gweithredu Newid a Gwelliant | * | 4 |
| Ymwybyddiaeth Sefydliadol | | 4 |
| Gwaith Partneriaeth a Chorfforaethol | * | 4 |
| Cyfathrebu | | 4 |
| Dadansoddi, Datrys Problemau a Gwneud Penderfyniadau | | 4 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | | 4 |
| Manteisio i'r Eithaf ar Adnoddau | * | 4 |
| Dangos Craffter Gwleidyddol | | 4 |



**PRIF DELERAU AC AMODAU GWASANAETH**
**PRIF SWYDDOG ADNODDAU DYNOL**
**(CYFARWYDDIAETH ADNODDAU)**

**1. CONTRACT**
Mae hwn yn benodiad parhaol.

**2. AMODAU**
Bydd yr amodau gwasanaeth yn unol â rhai'r Cydbwyllgor Negodi ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol fel y'i mabwysiedir gan y Cyngor Sir o bryd i'w gilydd, yn ogystal ag unrhyw amodau neu reoliadau eraill y penderfynir arnynt gan y Cyngor o bryd i'w gilydd mewn ymgynghoriad â'r undebau llafur cydnabyddedig.

**3. CYFLOG**
Cyfanswm cyflog unigol y swydd hon yw £97,861 y flwyddyn. Rhoddir dyfarniadau cyflog cenedlaethol yn unol â'r Cydbwyllgor Trafod i Brif Swyddogion Awdurdodau Lleol.

**4. GWERTHUSO PERFFORMIAD**
Cynhelir proses flynyddol o werthuso perfformiad o ran pennu a chyflawni cyfrifoldebau'r swydd; a nodi unrhyw anghenion datblygu personol parhaus i gynnal perfformiad uchel. Mae'r broses ar wahân i unrhyw gynllun sy'n ymwneud naill ai â chyflog neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad.

**5. GWYLIAU BLYNYDDOL**
Cynigir 28 diwrnod o wyliau blynyddol i gyflogeion â llai na 5 mlynedd o wasanaeth parhaus, a 33 diwrnod i gyflogeion â mwy na 5 mlynedd o wasanaeth parhaus. Byddwch hefyd yn cael 8 diwrnod o wyliau banc. Polisi cynllun prynu gwyliau ychwanegol ar waith (hyd at uchafswm o 10 diwrnod fesul blwyddyn gwyliau).

**6. ORIAU GWAITH**
Ni ellir cyflawni swydd y Prif Swyddog Adnoddau Dynol yn foddhaol o fewn wythnos waith sefydlog a bydd angen gweithio rhywfaint o oriau anghymdeithasol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau yn llawn. Mae'r raddfa gyflog gynhwysol ar gyfer y penodiad yn adlewyrchu'r angen i weithio y tu hwnt i oriau swyddfa arferol

**7. TÂL SALWCH**
Bydd y Cynllun Tâl Salwch Galwedigaethol yn unol â'r Cydbwyllgor Trafod ar gyfer Amodau Gwasanaeth Prif Swyddogion.

**8. PENSIWN**
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae hysbysiad optio allan ar gael gan yr Adran Bensiynau.

**9. CYFYNGIAD GWLEIDYDDOL**
Mae'r swydd hon wedi'i chyfyngu'n wleidyddol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009).







**10. CYNLLUN BENTHYCA CAR**
Rydych yn gymwys i gael benthyciad (nad yw'n fudd trethadwy) dan gynllun y Cyngor.

**11. CYNLLUN DISGOWNT CYFLOGEION – REWARD GATEWAY / MY LIFESTYLE**
Mynediad i'n platfform buddion gweithwyr, yn cynnig arbedion ar hanfodion fel bwydydd, gwyliau, tocynnau sinema, a mwy. Byddwch hefyd yn cael mynediad i'n Cynllun Beicio i'r Gwaith, Cynlluniau Yswiriant Deintyddol, Teithio â Gostyngiad a'n Rhaglen Cymorth Gweithwyr.

**12. LWFANS MILLTIREDD CAR**
Cyfradd CThEF yw 45c y filltir.

**13. YSMYGU**
Mae gan y Cyngor bolisi dim ysmygu.

**14. CYMAL HYBLYGRWYDD A SYMUDEDD**
Fel amod o'ch cyflogaeth gallai fod angen i chi gyflawni dyletswyddau a/neu amseroedd gwaith arall sy'n rhesymol ofynnol gennych ac sy'n gymesur â'ch gradd neu lefel gyffredinol o gyfrifoldeb o fewn y sefydliad, yn eich gweithle cychwynnol neu o unrhyw un o leoliadau eraill y Cyngor.

**15. ADRODDIAD MEDDYGOL BODDHAOL**
Mae angen adroddiad meddygol boddhaol gan Ymgynghorydd Meddygol y Cyngor wrth gael eich penodi i'r Cyngor yn y lle cyntaf.

**16. CYFNODAU RHYBUDD**
Fel arfer bydd y cyfnod rhybudd yn dri mis yn ysgrifenedig gan y naill ochr neu'r llall, ond gellir ei newid drwy gydgytundeb.

**17. CYFYNGIADAU AR AILGYFLOGI**
Bydd rhai cyfyngiadau'n berthnasol ar ôl terfynu cyflogaeth. Mae'r rhain yn ymwneud â pheidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol. Hefyd, o fewn 12 mis, ni ddylid derbyn cyflogaeth neu roi gwasanaethau am dâl i gorff dan yr amgylchiadau a amlinellir yn yr amodau gwasanaeth, heb ganiatâd y Cyngor, na fydd yn cael ei warafun yn afresymol. Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol os daw'r gyflogaeth i ben oherwydd dileu swyddi neu waith yn cael ei osod yn allanol a throsglwyddiad dilynol i gyflogwr newydd.